Rhif 27 **Yr Hen Wlad** Awst 2000

## At Gymry Patagonia

**Yr oedd dydd Iau, Awst 10, yn ddiwrnod bythgofiadwy yn hanes Y Wladfa yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli. Cyflwynwyd gwobr Dysgwraig y Flwyddyn 2000 ar lwyfan y pafiliwn i Sandra de Pol o Drevelin. Yn ddiweddarach yr un diwrnod yr oedd Seremoni Cymru a'r Byd.**


**Oherwydd y radio a'r teledu methodd Sandra â dod i gyfarfod blynyddol Cymdeithas Cymry Ariannin. Ond megis i wneud iawn am hynny gwefr i bawb ar ddiwedd y cyfarfod oedd clywed Vali James de Irianni yn cyfleu ei llawenydd am gamp Sandra mewn byr eiriau fel hyn: "Buasai'r Gwladfawyr cynnar wedi bod wrth eu boddau," meddai. "Nid am flwyddyn na dwy na thair blynedd y cadwyd y Gymraeg yn y Wladfa ond am 135 o flynyddoedd, ac i ddycnwch y Gwladfawyr a'u disgynyddion y mae'r diolch fod y fflam yn dal ynghynn a'r gamp hon wedi bod yn bosib."**

**Yn yr un cyfarfod croesawyd y nifer mwyaf erioed o ymwelwyr o Gwm Hyfryd â'r Eisteddfod (sef rhai heb ddod fel Côr).**

**Yn rhifyn diwethaf Yr Hen Wlad dywedais nad oedd neb wedi llwyddo i gael pob ateb i'r gystadleuaeth yn berffaith gywir.Fodd bynnag, yr oedd atebion un ymgeisydd wedi llithro o fysg y gweddill a'r rheini'n gywir. Daethant i'r fei drannoeth ond yr oeddwn wedi postio. Ymddiheuraf i Aira Hughes, Esquel, am fy mlerwch. Ei hatebion hi oedd y rhai cywir cyntaf i ddod o'r het y tro hwn hefyd.**

**Daliwch ati i gystadlu a diolch am eich cefnogaeth.**

*Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU E-bost Yr Hen Wlad yw: marian_elias@hotmail.com*




Englyn Alan Llwyd yn cael ei arddangos y tu allan i Swyddfa'r Post yn Eisteddfod Llanelli.

# Pencampwraig



Llun: *Yr Hen Wlad*

Dyma Sandra de Pol, enillydd gwobr Dysgwraig y Flwyddyn 2000 yn Llanelli.

O dras Eidalaidd a heb arlliw o waed Cymreig, dechreuodd fynychu dosbarthiadau Hazel Charles Evans yn Nhymor yr Hydref 1997 a dosbarthiadau ei holynydd, Sioned Huws, yn ddiweddarach. Mae hi hyd yn oed yn rhoi gwersi Cymraeg yn Nhrevelin erbyn hyn. Y mae ei merch Azul, 11 oed, yr un mor rhyfeddol, hithau hefyd yn siarad Cymraeg.

# Ymweld â'r Wladfa

Daw cymaint o ymwelwyr o Gymru i'r Wladfa erbyn hyn fel eu bod yn rhy niferus i'w henwi. Ond ar Fedi 12 eleni bydd rhywun gwahanol i'r arfer yn cyrraedd yna.

Pan soniodd Tegid Davies o Flaenau Ffestiniog wrth ei ddau gyfaill, Arwyn Humphreys a Gwyndaf Williams, o'r un dref, am ei fwriad i ymweld â'r Wladfa, eu hymateb oedd: "Mi ddeuwn ni efo ti."



Onibai amdanynt hwy ni fuasai Tegid Davies yn medru dod yna o gwbl gan ei fod yn gofrestredig ddall. Llun: *Yr Hen Wlad*

Dechreuodd ei yrfa trwy weithio i gwmni adeiladu, ond bu'n gwneud gwahanol swyddi o dorri coed i brifathro, ac o ddarlithydd i ymchwilydd i adnoddau newydd i bobl anabl gan ddarparu rhaglenni hyfforddi ar eu cyfer. Yn 1988 gorfu iddo ymddeol am fod ei olwg yn dirywio ac erbyn hyn nid yw'n gweld odid ddim. Mae'n dad i dri o blant ac yn daid i ddau. Saesnes yw ei wraig.

Ei brif ddiddordeb yw sgwrsio â phobl ac ar hyn o bryd mae'n dysgu Sbaeneg trwy gyfrwng casetiau.

Bydd ef a'i ddau gyfaill yn treulio pythefnos yna ac yn aros yn Y Gaiman efo Gwyn a Monica Jones cyn mynd i Esquel at Rini Griffiths. Os gwelwch ef ar y strydoedd yna neu yn Eisteddfod yr Ieuenctid ewch ato gan ei gyfarch wrth ei enw. Buasai wrth ei fodd.

# Eisteddfod




Pan fydd tua 160,000 o Eisteddfotwyr yn mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol byddant yn cofio rhai Eisteddfodau yn well na'i gilydd. Ond bydd Eisteddfod Llanelli yn aros yn hir yn y cof nid yn unig am safon uchel y perfformiadau a'r cystadlaethau ond hefyd am ei bod yn un hapus, am groeso dihafal y trigolion, ac am safle delfrydol y maes ei hun.

Bu'r maes ar un adeg yn safle gweithfeydd dur a thun lle y cyflogid tua 23,000 o bobl. Ond caewyd y rhan fwyaf o'r gweithfeydd hynny gan adael tomenni sbwriel ar eu holau.

Trwy gymorth grantiau gan y Llywodraeth a'r Gymuned Ewropeaidd gwastadhawyd y tomenni a chrewyd Parc Arfordir y Mileniwm, a gostiodd £27.5 miliwn. Ar ran o'r Parc hardd hwnnw y cartrefwyd Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni.

Yr oedd y maes parcio ddwy filltir o faes yr Eisteddfod ei hun ac yr oedd yn rhaid darparu bysus i bawb. Yn ôl y sôn costiodd y "bysus gwennol" £100,000 ond er hynny buont yn llwyddiannus dros ben ac ni bu angen i neb ddisgwyl yn hir amdanynt.

# Tre'r Sosban

Mae'r gân werin **Sosban Fach** yn boblogaidd iawn ac fe'i cysylltir â thref Llanelli. Dywedir mai'r amrywiaeth o sosbenni a wnaed yn ffatrioedd Llanelli oedd tarddiad geiriau'r gân hon. Dyna paham y gelwir Llanelli yn *Dre'r Sosban.*

# Viva Cymro!




Un o'r llyfrau newydd i blant a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw *Viva Cymro!* a ysgrifennwyd gan Meinir Pierce Jones gyda darluniau gan Elwyn Ioan.

Mae Blodwen Gonzalez Jones wedi dod yr holl ffordd o Batagonia i chwilio am y Cymro perffaith. Er iddi gael help Endaf ab Emlyn, tipyn o gamp yw dod o hyd i un sydd wrth ei bodd. Ei bris yw £4.95 a'r cyhoeddwyr yw Gwasg Gomer.

# Gwobrwyo Cwmni Gravell

Cafwyd cystadleuaeth i fusnesion yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli, ac enillwyd y teitl "Busnes y Flwyddyn 2000" gan Gwmni Gravell, Cydweli. Cyflwynwyd gwobr o £1000 i David Gravell dros y Cwmni gan Rhodri Morgan, Prif Ysgrifennydd Cymru.

Mae'r Cwmni'n cyflogi tua 60 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg Maent yn cynorthwyo gyda chanolfan Gymraeg newydd yn yr ardal, wedi sefydlu clwb cinio Cymraeg ac yn trefnu i fynd â phrydau o fwyd poeth (pryd ar glyd) i henoed Cydweli, i enwi dim ond ychydig o'u hamryfal weithgareddau elusennol.



Mae Tom Gravell, a sefydlodd y Cwmni yn 1932, yn ymwelydd cyson â'r Wladfa a hyd yn ddiweddar bu'n gwasanaethu fel Trysorydd Cymdeithas Cymry Ariannin. Mae'n nodedig am ei gymwynasgarwch a'i haelioni i ymwelwyr o'r Wladfa.

# Y Prif Lenor


Llun: *Yr Herald*

Yn seremoni Prif Lenor yr Eisteddfod cyflwynwyd y Fedal Ryddiaith am ddyddiadur taith, a nofel ar y ffurf honno a ddyfarnwyd yn fudd-ugol. Yr enillydd Eirug Wyn o'r Groeslon ger Caernarfon.

Enw ei nofel yw *Tri Mochyn Bach.* "Y man cychwyn," meddai "oedd darllen am wraig briod yn America yn llofruddio ei phriod a malurio ei gorff o ganlyniad iddi hi ei hun ddioddef trais."

Mae'n ysgrifennydd toreithiog. Hon oedd yr ail Fedal Ryddiaith iddo ei hennill a'i drydedd cyfrol ar ddeg mewn wyth mlynedd, i gyd mewn arddull hollol wahanol i'w gilydd.

# Curo ceffyl mewn ras

Bu i filwr ennill y ras yn erbyn ceffyl yn Llanwrtyd y mis Mehefin a hynny o ddeng munud a 32 eiliad.

Daeth y ras hon yn ddigwyddiad blynyddol yn Llanwrtyd ers 21 mlynedd a'r ceffyl a orfu bob tro ond eleni. Yr oedd 249 o redwyr yn y ras ond y milwr Mark Croasdale a orfu ar ôl rhedeg am ddwy awr, deng munud a dwy eiliad.

Yr oedd y gwobrau a gynigiwyd yn werth £21,000.

# Guto Nyth-Brân

Y ras enwocaf erioed i'w rhedeg yng Nghymru oedd yr un a gafwyd yn y flwyddyn 1737.

Yn y flwyddyn honno llwyddodd Guto Nyth-brân i ennill ras o 12 milltir (o Gasnewydd i eglwys Bedwas y tu draw i Gaerffili) mewn 53 munud a hynny yn erbyn milwr o Sais o'r enw Prince.

Wedi iddo ennill rhedodd merch o'r enw Siân o'r Siop at Guto mewn llawenydd i guro ei gefn heb ystyried ei fod wedi rhedeg yn galed a bod ei galon yn curo yn gyflym. O ganlyniad i'r clap cryf a gawsai ar ei gefn gan Siân bu farw Guto yn y fan a'r lle ac yntau yn 37 mlwydd oed.

# Mis mêl parhaus

Mae cwpl a dreuliodd naw mlynedd ar eu mis mêl wedi penderfynu parhau â'u mis mêl - am dair blynedd arall.

Mi fydd John ac Alicia Lamb (y ddau yn 36 oed) o'r Bont-faen, De Cymru, yn reidio beic trwy 35 o wahanol wledydd, a hynny ar eu hail fis mêl.

Mae'r ddau eisoes wedi teithio 70,000 milltir er pan briodasant ddeng mlynedd yn ôl.

Penderfynasant roi'r gorau i deithio ym mis Rhagfyr diwethaf a rhoi'r beiciau (a deithiodd ar draws tri chyfandir) o'r neilltu.

Ond erbyn mis Mehefin yr oeddent wedi newid eu meddyliau. Yr oedd John erbyn hynny wedi bod yn gweithio yn siop Tesco ac wedi cynilo digon o arian i gychwyn ar daith arall. Eu bwriad yw teithio 25,000 milltir - i Ogledd Ewrop a gwledydd y Dwyrain yna i Awstralia a Thasmania gan gysgu mewn pabell a dod o hyd i waith ar y ffordd. [Ar y We: *bikehiketour.com*]

# Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Nid oes rhaid mynd yr holl ffordd i Aberystwyth i weld casgliad y Llyfrgell Genedlaethol o luniau gan arlunwyr enwog erbyn hyn, nac ychwaith i astudio agweddau ar hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Maent i'w gweld ar ddwy safle Gwe sydd i'w cael yn safle'r Llyfrgell : *www.llgc.org.uk*

- Ar safle *Gwaith Celf mewn Ffrâm* gellir gweld dros 4,000 o luniau arlunwyr enwog, o Richard Wilson i lun Christmas Evans gan artist anhysbys.
- Safle *Ymgyrchu!* yw hanes gwleidyddol a chymdeithasol Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Mae hon mewn tair iaith: Cymraeg, Sbaeneg a Saesneg.

Cafodd disgyblion Ysgol Gymraeg Plas Mawr, Caerdydd, sy'n astudio Sbaeneg, eu cip cyntaf ar yr ail safle newydd ym mis Gorffennaf eleni.

# Coron Llanelli



Hanes gwyliau yn Sir Benfro ar gyfer pedwar o blant sydd wedi colli eu tad yw cerdd y goron yn Llanelli eleni.

Yr enillydd oedd Dylan Iorwerth, Golygydd Gyfarwyddwr y cylchgrawn *Golwg*. Arferai ef a'i deulu a'i gyfaill Dafydd Vernon Jones a'i deulu yntau dreulio eu gwyliau gyda'i gilydd ond ym mis Ebrill 1999 bu farw Dafydd. Llun: *Y Cymro*

Ysgrifennodd Dylan Iorwerth 15 o gerddi i gofio amdano, ac fel hyn y diweddant:

Mae pawb yn gwybod
pa mor ddideimlad 'di'r môr.

Mi sgwennaist dy enw'n ofalus ar y traeth
ond mi ddaeth yntau heibio
efo'i gadach gwlyb.

Ein lluniau ohonot yn bentwr ar linell penllanw,
yr halen wedi cnoi eu hymylon
a llosgi twll yn eu canol.

Ond pan fydd y traed yn trydar
a geiriau'n gweu yn ei gilydd,
mi fydd cylchoedd yr enfys
yn heulogram dan y pistyll
a chdithau yn eu canol,
yn codi bawd.

# Bardd y Gadair



Llun: *Y Cymro*


Yn wahanol i'r arfer, casgliad o gerddi mewn cynghanedd yn hytrach nag awdl oedd gofynion cystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod Llanelli.

Y bardd buddugol oedd Llion Jones o Fangor sy'n wreiddiol o Abergele. Thema ei gerddi buddugol yw gwacter y byd a reolir gan y cyfrifiadur a'r teledu a'r holl beiriannau modern a hynny o fore gwyn tan nos.

Mae Llion Jones yn ddarlithydd yn Adran Gyfathrebu a'r Cyfryngau yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor.

Mae ganddo safle ar Y We i hyrwyddo barddoniaeth Gymraeg: *www.cynghanedd.com*

# Nofelydd



Yr oedd y wobr ariannol yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Llanelli yn £5,000 o gymharu â £500 yn y gorffennol.

Yr enillydd oedd Geraint Vaughan Jones a'i gamp oedd ysgrifennu nofel heb ei chyhoeddi o'r blaen.

Enillodd y wobr hon am y trydydd tro ac yn sgîl hynny daeth yn adnabyddus fel awdur llyfrau a'r ditectif Semtecs yn brif gymeriad iddynt. Yr oedd ei nofel fuddugol, *Cur y Nos*, ar werth yn yr Eisteddfod.

Mantais cystadlu iddo ef oedd "fy mod i'n gwybod y byddai tua 2,500 o gopïau yn cael eu gwerthu yn yr Eisteddfod, ond mae angen rhoi llawer mwy o sylw i'r wledd o lyfrau eraill. Mor hawdd fyddai i S4C roi ychydig sylw iddynt ac i gael rhywrai i'w trafod. Nid yw pobl yn eu prynu am nad ydynt yn gwybod amdanynt."

# Cosbi athrawon

Yn Llys Ynadon Y Fenni, Sir Fynwy, ym mis Gorffennaf eleni, dedfrydwyd yr athrawes Marjorie Evans, 56 oed, i dri mis o garchar gohiriedig am ddeuddeng mis am daro plentyn yn ei dosbarth. Mae wedi ei hatal o'i gwaith. Yr oedd y plentyn wedi mynd yn anodd i'w drin wedi iddi hi ddweud wrtho na châi fynd i nofio.

Yr oedd 50 a athrawon yn ei chefnogi y tu allan i'r llys.

Ymateb Gareth Jones, Aelod o'r Cynulliad a chyn-brifathro, yw y dylid gosod camerâu mewn dosbarthiadau lle y ceir disgyblion anystywallt.

Mewn ysgol uwchradd ym Môn derbyniodd athrawes rybudd swyddogol gan yr heddlu am daro plentyn 13 oed ar draws ei wyneb mewn dosbarth yn gynharach eleni am iddo fod yn ddigywilydd. Ni chafodd ei gwahardd o'i gwaith tra oedd yr heddlu yn ymchwilio ond datganodd nifer o ddisgyblion gefnogaeth gref iddi. Y penderfyniad oedd rhoi rhybudd llafar iddi beidio â gwneud eto.

Er hynny mae Samantha Parry, 33 oed, mam y bachgen, sydd hefyd yn gweithio amser cinio yn yr ysgol honno, wedi cwyno i Lys Iawnderau Ewrop.

# Anrhydedd



Llun: Yr Herald

Anrhydeddwyd Dr Gwynfor Evans mewn seremoni arbennig yn Eisteddfod Llanelli am ei waith diflino dros ei wlad.


Ef oedd Aelod Seneddol Cyntaf Plaid Cymru yn y Senedd yn Llundain, yn cynrychioli etholaeth Caerfyrddin, yn 1966. Fe'i ganed yn 1912.

Yn 1980 aeth ar streic newyn er mwyn rhoi pwysau ar y llywodraeth i gadw at eu haddewid i sefydlu sianel deledu Gymraeg. O ganlyniad i hynny y sefydlwyd Sianel 4 Cymru yn 1981.

Ysgrifennodd nifer fawr o bamffledi a llyfrau hanesyddol.

Symbylydd y wobr arbennig hon gan Gymry'r Cyfanfyd oedd Dr Arturo Roberts (sydd yn enedigol o'r Wladfa ac yn frawd i Tegai Roberts a Luned González) ond yn awr yn byw yn Unol Daleithiau America ac yn Olygydd y Cylchgrawn *Ninnau*.

# Llyfr taith




Cafodd llyfr newydd Cathrin Williams ei gyhoeddi gan Wasg Pantycelyn yng Ngŵyl y Glaniad eleni.

Llyfr taith i ymwelwyr o Gymru â'r Wladfa ydyw ac mae'n ardderchog.

Â'r holl elw i goffrau Cymdeithas Cymru-Ariannin.

# Cymreictod go iawn

*Cymreictod go iawn yn hytrach nag un plastig* oedd pennawd colofn wythnosol Angharad Tomos yn *Yr Herald* ar Awst 5.

Roedd hi wedi darllen erthygl gan Arwyn Evans, gŵr ifanc a adawodd Ben-y-groes, Dyffryn Nantlle, am fywyd bras dinas Caerdydd lle mae'n gweithio i gwmni teledu ers tair blynedd ar ôl bod yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Dyma bwt bach o sylwadau Angharad:

"...Mae pawb yn gwybod fod Pen-y-groes yn dlotach yn faterol, ac rydan ni wrthi fel lladd nadroedd yn ceisio codi'r safon byw (heb help yr ifanc sy'n heidio i Gaerdydd). Yr hyn sydd gennym yw cyfoeth cymdeithasol.

Mae gen i'r cysur o wybod fod yna gymdogion bob ochr i mi sydd yn poeni amdanaf. Mae gen i'r sicrwydd fod y tŷ yn ddiogel hyd yn oed os ydwi'n gadael y goriad yn y drws ambell waith. Oes, mae 'na gyffuriau a dwyn o geir, ond does gen i ddim cymaint o gyfoeth fel bod yn rhaid i mi wario f'arian i gyd ar bolisïau inisiwrans, neu gymryd hanner awr bob nos i osod larwm ar y car neu folltio drws fy nhŷ.

Ym Mhen-y-groes mae pobl yn siarad efo'i gilydd, ar fysus, yn y post, ar y stryd. Dwi'n dal i deimlo hunan barch a 'ngwerth fel unigolyn. Pan fydd rhywun yn marw yma, mae cymuned gyfan yn galaru. Ydan, 'rydan ni'n perthyn i'n gilydd....

Dwi'n dewis byw yma achos mai dyma'r lle gorau ar wyneb daear. Dydw i ddim isio byw yn unman arall, a dydwi ddim eisiau i ryw greadur trist yng Nghaerdydd wastraffu ei amser yn tosturio wrthyf...."

# Bardd newydd

Y sawl a gafodd y wobr gyntaf am ei gasgliad o gerddi gwreiddiol yn Eisteddfod Llanelli oedd Glyn Evans, cyn-olygydd *Y Cymro* a dreuliodd chwe mis yn Y Wladfa y llynedd. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniad Alan Llwyd.

# Cystadleuaeth

Enillwyr cystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llanelli i bobl y Wladfa eleni oedd:
1. Gweneira Davies de Gonzalez de Quevedo (£100); 2. Bernardo Jones, Esquel (£70); 3. Esther Evans Hughes, Esquel (£30).

Yr oedd y beirniad, Y Parchedig Arthur Meirion Roberts, wrth ei fodd a dywedodd fod gwaith y tri a wobrwywyd o safon uchel. Yr oedd Bernardo Jones yn bresennol i gael ei wobr a chefais weld ei ysgrif. Dyma gip ar ei rhan gyntaf gan obeithio y caiff y gweddill ohoni a'r ysgrifau eraill weld golau dydd yn fuan.

# Atgofion personol bywyd a gwaith

Mae'n debyg na chafodd y clychau achos i ganu ar fy nyfodiad i'r byd, ond yn dra gwahanol i'r Enoc Huws hwnnw, cymeriad o eiddo nofelydd mwyaf Cymru, yr oedd cryn lawenydd yn y tyddyn to brwyn pan agorais fy llygaid gwan i syllu ar haul ac awyr las y Cwm am y tro cyntaf, ganol haf ym mis Chwefror. Fy nain, gyda'i dwylo medurs, a'm helpodd yn dyner i'r byd, ac yn ôl pob sôn, myfi, mab hynaf ei mab hitha oedd cannwyll ei llygad ar hyd y daith faith honno o gant a thair o flynyddoedd yn ei hanes.

Buan y'm suwyd i gysgu gan sŵn soniarus y nant a redai heibio i'r tŷ, sef Nant y Fedw. Hogyn y wlad oeddwn, ac am flynyddoedd i ddod fy ffrindia pennaf oedd y gwartheg a'r lloea a fugeiliai fy nhad mor ffyddlon, ynghyd â'r cŵn a'r ceffyla. "Gaucho" oedd fy nhad - un a wyddai'n iawn am y gelfyddyd o daflu "laso". Dyna lle roeddwn, felly, a minna ond prin pump oed yn eistedd yn gartrefol yn y cyfrwy yn dal yr awena'n dyn er mwyn iddo fo, nhad, fedru gwasgu buwch yn erbyn y ffens a'i lladd. Oeddwn, mi roeddwn i'n "real chap" ys dywedodd f'ewyrth Arthur.

Nid ogleuon y Corral, serch hynny, a lenwai fy nwyffroen gan amlaf, ond yr hyn a ddeuai o ffwrn fy mam annwyl a gweithgar. Y bara ffres yn cynnwys burum hops a'r ffroes a'r pica bach oedd heb eu hail. A dyna'r "tortas fritas" a'r coffi bendigedig ben bora - coffi du heb laeth gydol y gaeaf am na fyddai yno wartheg i'w godro.

Un fechan o gorffolaeth oedd fy mam hithau, ond os mai prin un fetr chwe deg ydoedd yn nhraed ei sana, mi roedd yn fawr yn fy ngolwg i ac yng ngolwg eraill. Gan iddi feddu ar argyhoeddiada Cristionogol dwfn dysgodd imi ym more oes i rannu gyda'm brodyr a'm chwiorydd, i ddangos parch tuag at y brodorion, i garu'r "petha" ac yn anad dim i siarad y Gymraeg. A dyma fi heddiw, a minna'n ddyn, yn dal i anwylo hen iaith fy mam....

*Bernardo Jones, Esquel*

# Yng Nghlust y Teleffôn

**Llongyfarchiadau:**

◆ i Dewi Wyn Evans a Liliana Williams ar eu priodas yn Neuquen ym mis Gorffennaf. Byddant yn ymgartrefu yn Nulyn lle mae Dewi yn ddarlithydd; i Gabriel Restucha a Lucia ar eu priodas yng Nghapel Bethel, Gaiman, ar Awst 5 ac i Catrin Morris a Milton Junjen ar eu priodas yn y Dyffryn ym mis Awst. ◆ i Eos a Carina Griffiths, Glyndyfrdwy, Llangollen ar enedigaeth eu merch fach Alaw Mai, chwaer i Elina Mair. ◆ i Ricardo Irianni am ennill gradd M.Sc. ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth.

◆ Mynychodd 6 myfyriwr o'r Wladfa Gwrs Llambed eleni - am y cyfnod llawn - a dau am gyfnod byr.

◆Llwyddodd Hazel Charles Evans, trwy gymorth Sandra ac Azul de Pol ac eraill, i werthu gwerth £2,000 o frics yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli tuag at Ganolfan Esquel.Dyna beth yw ymroddiad a brwdfrydedd.

◆ Gwnaeth Sioned Glyn grysau T "Ysgol Gymraeg yr Andes" ar gyfer Gŵyl y Glaniad a'r Eisteddfod ac fe'u gwerthwyd i gyd ond un.◆ Trist oedd darllen yn *Y Drafod* am y colledion enfawr a gafwyd yna yn ddiweddar. Maent yn rhy niferus i'w henwi ond cydymdeimlwn o galon â'r teuluoedd yn eu hiraeth.◆Clywsom fod Y Parchedig Robert Parry,Birmingham, wedi cyrraedd i weinidogaethu yn y Dyffryn.◆ Cydymdeimlir â Pedr Mcmullen ar golli ei fam, y Fns. Marie I.Mcmullen, ar Awst 20.

## ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Hydref 10 2000 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r yr ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad.*

1. Beth wnaeth Prif Ysgrifennydd Cymru yn yr Eisteddfod?
2. Am faint y bydd y mis mêl yn parhau?
3. Pwy neu beth sy'n ddideimlad?
4. Faint gostiodd y bysus gwennol?
5. Ym mha ysgol yng Nghymru y dysgir Sbaeneg?
6. Pwy fu ar streic newyn?
7. Pwy sy'n ddyledus i'w nain?
8. Pwy enillodd £5,000?
9. Beth fyddwn ni'n ei gadw yn ein pocedi yna?
10. Pwy, heblaw ei gariad, a gafodd ganmoliaeth gan Alan Llwyd?
11. Ym mhle mae Tegid yn byw?
12. Faint o lyfrau eraill a ysgrifennodd yr awdur heblaw am y moch?

# O'r Wladfa



Dyma lun Nelda Williams, Esquel.

Gwnaeth yn fawr o'i hymweliad â Chymru ym mis Gorffennaf ac Awst trwy ddilyn cyrsiau gloywi iaith ac ysgrifennu yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor ac yn Nantgwrtheyrn a Choleg Harlech. Clywsai'r Gymraeg gartref ar yr aelwyd ond yn Sbaeneg yr oedd hi'n hapus.Yn awr mae hi'n siarad Cymraeg yn hyderus ar ôl mynychu dosbarthiadau yn Y Wladfa. Mae hi'n awyddus i ddarllen dyddiaduron ei mam yn Gymraeg ac ysgrifennu hanes y teulu. Mae'n ddiolchgar i'w hathrawes Sioned Huws am drefnu iddi gael lle ar y gwahanol gyrsiau.

Llun: *Yr Hen Wlad*



**O Gwm Hyfryd**: Elfyn Roberts, Ethel Morgan, Blanche Saunders, Elvira Williams (mam Liliana) ac Amanda Roberts a yng nghwmni Aur Roberts, Llanuwchllyn (4edd o'r chwith) yn Eisteddfod Llanelli. Mae Aur Roberts yn aelod gwerthfawr iawn o Gymdeithas Cymru-Ariannin. Bydd nid yn unig yn trefnu Gŵyl y Glaniad yn Y Bala bob blwyddyn (daeth dros 100 yno eleni yn cynnwys 22 o'r Wladfa) ond am yr ail flwyddyn yn olynol bu'n trefnu'r Clwb 200 a ddaeth â thros £1,000 o elw i'r Gymdeithas am y flwyddyn 1999-2000.

## CYSTADLEUAETH

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, Awst 2001 i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Ariannin.

**Sgwrs ar dâp, oddeutu 20 munud o ran hyd, gyda rhywun dros 80 oed. Dylid cychwyn gyda gair o gefndir er mwyn rhoi'r sgwrs yn ei chyd-destun.**

Beirniaid: Gruff ac Eifiona Roberts

Gwobr: £200 (Gwobr Goffa Shân Emlyn)